

research
in practice



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales



PECYN ADNODDAU

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Briff Ymarfer 3
Dadansoddi ac asesu

Dartington



Cynnwys

- 4 Y prif negeseuon
- 5 Pwysigrwydd asesu o safon uchel
- 6 Nodweddion asesiad da
- 7 Ymgorffori dadansoddiad mewn asesiad
- 8 Cysyniadau sy'n allweddol i asesu
- 9 Y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen
- 12 Gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd
- 13 Cynadleddau Grŵp Teulu
- 14 Asesiadau hyfywedd
- 15 Risg a gallu i newid
- 15 Gallu i newid
- 18 Asesu risg
- 19 Barn broffesiynol ac offer safonedig
- 20 Asesu risg o gam-drin pellach
- 24 Ffactorau amddiffynnol a ffactorau gwytnwch
- 26 Asesu opsiynau ar gyfer sefydlogrwydd
- 26 Cynllunio ar gyfer sefydlogrwydd – dadansoddi ar gyfer penderfyniad teg
- 26 Canlyniadau ar ôl diwygio'r broses achos gofal
- 27 Cynnwys plant wrth wneud penderfyniadau
- 28 Nodweddion plant mewn gwahanol leoliadau
- 29 Sefydlogrwydd a lles
- 30 Casgliad

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

Bydd y briff hwn yn eich helpu i:

- > Ystyried ansawdd wrth asesu a myfyrio ar y sgiliau a'r prosesau sy'n ymwneud â dadansoddi a meddwl yn feirniadol.
- > Nodi meysydd lle gallwch gryfhau a datblygu eich ymarfer eich hun yn y maes hwn a dull gweithredu eich sefydliad.
- > Meddwl sut rydych yn ymdrin â risg a gallu i newid.

Y prif negeseuon

- > Mae datblygu'r gallu i ddadansoddi a meddwl yn feirniadol yn elfen allweddol o'r broses asesu.
- > Mae gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd yn elfen ganolog o asesu.
- > Mae gwell ymarfer asesu gwaith cymdeithasol yn egluro ble a phryd y gallech fod angen asesiadau arbenigol.

Pwysigrwydd asesu o safon uchel

- > Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu teuluoedd sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaethau plant ac sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer asesiad o'r fath. Os yw'r trothwy'n cael ei gyrraedd, a phryderon yn ymwneud â diogelu'n cael eu nodi, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu cymorth er mwyn rhoi sylw i'r pryderon hynny a diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc a'i deulu.
- > Mae unrhyw asesiad yn galw am ddadansoddiad gofalus o'r ffactorau cadarnhaol a negyddol ym mywyd plentyn ac ystyriaeth o'r risgiau cysylltiedig a ffactorau ataliol yn y teulu.
- > Mae asesiadau cadarn a darparu cefnogaeth i rieni yn y broses cyn-achos yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod rhieni'n cael cyfle i wneud newidiadau cadarnhaol ac er mwyn sicrhau bod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud ar gyfer plant a phobl ifanc.
- > Mae asesiadau a chynlluniau gofal dilynol, a'r dystiolaeth o'r gwaith uniongyrchol sy'n cael ei wneud gyda theuluoedd, i gyd yn cael eu defnyddio fel sail i adroddiadau gwaith cymdeithasol fydd yn cael eu cyflwyno yn y llys pe na bai anghenion y plentyn

yn cael eu diwallu'n ddiogel yn y cartref a'r amgylchedd teuluol.

Mae asesiadau o safon uchel yn bwysig iawn er mwyn i'r llys teulu allu gwneud defnydd effeithiol o arbenigedd gwaith cymdeithasol. Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn dibynnu ar ansawdd tystiolaeth gwaith cymdeithasol a gyflwynir gyda'r cais er mwyn gallu cwblhau achosion mewn pryd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc.

Roedd adolygiad Turney a'i gydweithwyr (2011) o ymchwil i asesiadau gwaith cymdeithasol o blant mewn angen yn edrych ar y cysylltiad rhwng ansawdd asesiadau a chanlyniadau i blant. Canfu fod asesiad da yn gysylltiedig â mwy o siawns o aduniad llwyddiannus ac â lleoliadau llwyddiannus a sefydlog i blant. Ar y llaw arall, canfu'r ymchwil fod asesiadau diffygiol yn nodwedd gyson o achosion o anafiadau difrifol neu farwolaeth, bod oedi cyn gwneud asesiad neu benderfyniad yn atal lleoliadau llwyddiannus, a bod asesiadau gwael yn golygu bod risg i blant gael rhagor o niwed (Turney et al, 2011).

Roedd yr adolygiad yn nodi rhai themâu cyson:

- > Nid oedd asesiadau'n cynnwys cyfeiriadau at ymchwil neu'n gwneud defnydd penodol o theori.
- > Roedd asesiadau gwaith cymdeithasol yn orddisgrifiadol ac yn annigonol o safbwynt dadansodol – roedd tuedd i

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

ddarparu llawer o wybodaeth gefndir yn hytrach na cheisio ateb y cwestiwn beth mae hyn yn ei olygu i blentyn penodol. (Turney et al, 2011)

Codwyd mater manwl gywirdeb dadansoddol mewn adroddiadau cymdeithasol i'r llys mewn nifer o ddyfarniadau hefyd. Yn nyfarniad pwysig Re B-S (Re B-S (Plant) [2013] EWCA Civ 1146) mynegodd Llywydd yr Adran Deulu bryder ynglŷn ag:

... annigonolrwydd rheolaidd y dadansoddi a'r rhesymu a gyflwynir ... yn y deunyddiau a roddir gerbron y llys gan awdurdodau lleol a gwarcheidwaid a hefyd mewn gormod a ddyfarniadau' a mynnodd ddiwedd i'r 'arfer flêr' hon.¹

Nodweddion asesiad da

Er mwyn asesu mae angen i ymarferydd gasglu set amrywiol o wybodaeth a barn, sy'n annhebygol o fod yn gyson, ac archwilio sefyllfa sy'n newid o hyd. Y dasg yw dod â'r wybodaeth hon at ei gilydd, pwysu a mesur ffactorau sy'n pwyntio i wahanol gyfeiriadau, penderfynu ynglŷn ag argymhellion penodol a dangos bod yr argymhellion hyn wedi'u seilio ar ffeithiau, arsylwadau, ymchwil ac arbenigedd proffesiynol.

Mae asesiad da:

- > *Yn broses barhaus a dynamig:* canfu dadansoddiad bob tair blynedd gan Sidebotham a'i gydweithwyr (2016) o adolygiadau achosion difrifol fod 'gweithwyr proffesiynol yn gweld

asesu fel digwyddiad untro yn hytrach na phroses barhaus a'u bod yn dibynnu ar ymweliadau unigol a ffynonellau gwybodaeth unigol', yn hytrach na datblygu a chymhwyso dulliau meddwl yn feirniadol a dadansoddi.

- > *Yn cael ei adolygu'n rheolaidd:* Mae goruchwylio myfyriol yn darparu'r cyd-destun sylfaenol craidd ar gyfer cwestiynu rhagdybiaethau a datblygu asesiad o safon.
- > *Yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â theluoedd* ym mhob cam.
- > *Yn cael ei gynnal o fewn fframwaith amlddisgyblaethol:* Mae gweithio gyda phartneriaid i rannu gwybodaeth, cwestiynu ei hystyr drwy wahanol safbwyntiau proffesiynol, cytuno ar gynlluniau ac osgoi dyblygu gwaith yn agweddau allweddol ar asesu.

OFFERYN 6

Gellir defnyddio'r offeryn hwn mewn hyfforddiant grŵp i helpu gweithwyr cymdeithasol i feddwl am y ffactorau sy'n dylanwadu ar y broses wneud penderfyniadau – ac i fyfyrion ar y graddau y mae eu hargymhellion yn seiliedig ar anghenion y plentyn.

OFFERYN 7

Defnyddiwch yr offeryn hwn i fyfyrion ac ystyried i ba raddau rydych yn gogwyddo tuag at ymchwil. Oes gennych chi dull beirniadol a dadansoddol o weithio yn y llys teulu?

¹ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed117048

Ymgorffori dadansoddiad mewn asesiad

Mae Brown et al (2014) yn tynnu sylw at nodweddion asesiad da:

Nodweddion asesiad dadansoddol cadarn (addaswyd o Brown et al, 2012)

Nodau

- > darparu darlun da o'r plentyn, y rhiant a'u stori
- > darparu dealltwriaeth o bwrpas yr asesiad
- > bod yn benodol ynglŷn ag anghenion y plentyn ac yn glir ynglŷn â'u difrifoldeb a'r canlyniad neu'r risgiau tebygol os na roddir sylw iddynt bod yn glir ynglŷn â beth fydd yn digwydd o ganlyniad i'r asesiad.

Cyd-destun

- > dangos dealltwriaeth o hanes y teulu a'r cyd-destun
- > bod yn glir ynglŷn â beth nad ydyn ni'n ei wybod eto
- > dangos dealltwriaeth o oblygiadau emosiynol yr hyn a arsylwyd i'r teulu dangos meddwl agored a gofyn cwestiynau.

Arddull

- > bod yn rhesymegol, dangos sut mae casgliadau ac argymhellion yn llifo o'r wybodaeth
- > bod yn gryno, yn berthnasol ac yn benodol
- > peidio â defnyddio jargon
- > cysylltu'r cynllun gweithredu yn ôl â rhannau penodol o'r asesiad.

Tystiolaeth

- > bod yn glir ynglŷn â'r wybodaeth, y theori a'r dystiolaeth (o arsylwi ac ymchwil) sy'n sail i'ch dadl a'ch barn
- > cynnwys adroddiad clir, seiliedig ar dystiolaeth o'r effaith debygol ar y plentyn os na fydd yr anghenion yn cael eu diwallu dangos hyder yn eich dadansoddiad a datganiadau clir sy'n cael eu cefnogi gan dystiolaeth.

Arbenigedd

- > bod yn glir ynglŷn â'ch pryderon a'r rhesymau drostynt
- > cynnwys rhagdybiaethau ac esboniadau.

Barn

- > cynnwys barn y teulu a dadansoddiad ohoni.

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

Cysyniadau sy'n allweddol i asesu

- > **Dadansoddi:** torri rhywbeth i lawr yn wahanol gydrannau ac edrych ar y berthynas rhyngddynt. Gweithio'n systematig drwy wybodaeth sy'n aml yn gymhleth a cheisio gwneud synnwyr ohoni.
- > **Greddf:** gweithredu ar lefel isymwybodol a defnyddio profiad bywyd a gwybodaeth y mae'r ymarferydd wedi'i chasglu wrth ymarfer, yn ogystal â'i wybodaeth am theori ac ymchwil. Mae'n ymwneud â defnyddio eich 'greddf' neu eich teimladau i lunio'r cwestiynau rydych yn eu gofyn i chi eich hun ac ynglŷn â'r sefyllfa, mynd ar ôl syniadau a'u profi. Yn ôl Turney et al (2011): 'Gall greddf fod yn lle da i ddechrau ond nid i orffen meddwl.' Mewn geiriau eraill, y ffordd orau o'i ddefnyddio yw er mwyn codi cwestiynau a ffurfio rhagdybiaethau y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt.
- > **Meddwl yn feirniadol:** gallu meddwl am wahanol ffyrdd o ddeall y wybodaeth sydd o'ch blaen, pwysu a mesur gwahanol opsiynau a dehongliadau â meddwl agored, a deall pam y mae un dehongliad yn cael ei ddewis yn hytrach nag un arall.
- > **Rhagdybio:** meddwl am wahanol ddehongliadau posibl o'r wybodaeth, profi a ydynt yn cyd-fynd â'r

wybodaeth sydd gennych ar hyn o bryd ac ystyried pa wybodaeth arall sydd ei hangen. Mae'n amddiffyniad pwysig rhag y duedd i gadarnhau ('verificationism') – y duedd i ganolbwyntio ar wybodaeth sy'n cadarnhau barn sydd wedi'i ffurfio'n barod a diystyru gwybodaeth nad yw'n cyd-fynd â hi. Mae angen ailystyried rhagdybiaethau wrth i chi ddod yn ymwybodol o wybodaeth newydd neu wrth i'ch greddf newid. Mae hefyd yn werth trafod theorïau sy'n croes-ddweud ei gilydd gyda phlant a'u teuluoedd, profi eich rhagdybiaethau gyda nhw.

> Myfyrio:

- **'myfyrio wrth weithio'** – y ffordd y mae ymarferydd cymwys yn gallu meddwl ar ei draed, gan ddefnyddio a chymhwyso'r hyn y mae wedi'i ddysgu o sefyllfaoedd blaenorol
- **'myfyrio ar waith'** – edrych yn ôl ar yr hyn rydych wedi'i wneud, meddwl sut aeth pethau, ac ystyried sut y gallech fod wedi gwneud pethau'n wahanol. Mae'r ddau'n bwysig.

OFFERYN 11

Bydd yr offeryn hwn yn helpu gweithwyr cymdeithasol i ganolbwyntio ar ysgrifennu'n ddadansoddol. Defnyddiwch ef i ddangos y gwahaniaeth rhwng disgrifiad ysgrifenedig a dadansoddiad ysgrifenedig o'r un digwyddiad.

Gellir defnyddio'r offeryn mewn hyfforddiant neu mewn sesiynau goruchwyllo. Gall hefyd eich helpu i baratoi ar gyfer croesholi.

OFFERYN 13

Gellir defnyddio'r offeryn hwn i 'dorri'r iâ' wrth ddatblygu hyfforddiant yn ymwneud â thystiolaeth mewn asesiadau ac adroddiadau. Mae'n ffordd hwyliog o ganolbwyntio ar bwysigrwydd cywirdeb wrth gyfleu tystiolaeth.

Cefnogaeth sefydliadol ar gyfer dadansoddi effeithiol

Mae agweddau allweddol ar gefnogaeth sefydliadol i waith dadansodol gan weithwyr cymdeithasol yn cynnwys:

- > **'Cefnogaeth' rheolwyr**
- > **Adeiladu ar ymarfer da:** Nodi ac adeiladu ar gryfderau tîm, casglu enghreifftiau o asesiadau, nodi offer asesu, trefnu cyfarfodydd ymarfer, ac achosion beirniadol mewn goruchwyliaeth grwp neu gymheiriaid.
- > **Diwylliant goruchwyllo:** Canolbwyntio ar ddadansoddi mewn sesiynau goruchwyllo ac annog goruchwylwyr i drafod dulliau a rhannu deunyddiau. Mae sesiynau goruchwyllo yn gyfle i fyfyrwyr, i herio ac i brofi syniadau a rhagdybiaethau. Mae gan sefydliadau gwaith cymdeithasol gyfrifoldeb i ddarparu amser a lle ar gyfer goruchwyliaeth fyfyrwyr.

- > **Datblygu sgiliau:** Defnyddio gweithdai tîm i adeiladu sgiliau, datblygu dealltwriaeth gyffredin o gydrannau asesu da, nodi meysydd i'w datblygu, a dysgu oddi wrth eich gilydd.
- > **Mesurau ymarferol:** Sicrhau bod gan staff le tawel i fyfyrwyr. (Brown et al, 2014)

Y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen

Sefydlwyd y fframwaith cysyniadol ar gyfer asesu gan y canllawiau a amlinellwyd yn y *Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Swyddfa Gartref, 2001). Mae'r Fframwaith yn darparu dull ecolegol, datblygiadol, seiliedig ar ymchwil o asesu anghenion plant, wedi'i strwythuro o amgylch tri maes – anghenion datblygiadol y plentyn, gallu'r rhieni, a ffactorau sy'n ymwneud â'r teulu a'r amgylchedd.

Y Fframwaith yw'r canllawiau statudol ar gyfer asesu plant mewn angen yng Nghymru o hyd, er ei fod wedi cael ei ddiwygio a'i ailgyhoeddi yn Lloegr yn gynnar yn 2013 (Llywodraeth Ei Mawrhydi, 2013). Mae asesiad dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (adrannau 19-30) yn cael ei reoli gan Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 a Rhan 3 o'r Côd Ymarfer ('asesu anghenion unigolion') (Llywodraeth Cymru, 2015a) sy'n cyfeirio

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

yn Atodiad 2 ('egwyddorion wrth wraidd asesu plant') at y *Fframwaith ar gyfer Asesu Plant a'u Teuluoedd*.


Canfu gwerthusiad cynnar fod y Fframwaith wedi cael derbyniad cadarnhaol gan deuluoedd pan oedd yn cael ei ddefnyddio'n dda ac y gellid gwneud defnydd therapiwtig ohono. Mae hwn yn bwynt pwysig: nid yw gwahaniaethu cysyniadol anhyblyg rhwng asesu ac ymyrryd yn adlewyrchu realiti ymarfer da, seiliedig ar berthnasoedd, y mae asesu ei hun yn elfen ohono er mwyn datblygu perthynas broffesiynol gefnogol (Barlow a Scott, 2010; Millar a Corby, 2006).

Beirniadwyd y Fframwaith hefyd am beidio â rhoi sylw penodol i faterion yn ymwneud â risg. Mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio fframweithiau asesu risg ychwanegol (er enghraifft Model Asesu Risg, Dadansoddi a Rheoli Calder (RASSAMM) 2003 a 2016; neu Fodel Risg Bruce Thornton²).

² Mae Model Risg Bruce Thornton yn fframwaith i asesu a rheoli'r risg o niwed sylweddol: www.bruce-thornton.info/Risk/About_risk/

Egwyddorion sydd wrth wraidd y Fframwaith Asesu

Mae'r Fframwaith Asesu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Swyddfa Gartref, 2001) yn nodi egwyddorion pwysig sydd wrth wraidd y dull o asesu plant mewn angen a'u teuluoedd.



Fframwaith Egwyddorion

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

Gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd

Mae corff cynyddol o ymchwil a gwybodaeth ymarfer yn cefnogi dull cyfannol o weithio gyda theuluoedd, nad yw'n rhoi diogelwch y plentyn yn y fantol ac sy'n cynnwys rhieni a'r teulu ehangach mewn prosesau newid a allai helpu i amddiffyn eu plant (Featherstone et al, 2016). Mewn rhai sefydliadau, mae'n bosibl y bydd gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd yn galw am newid radical mewn diwylliant ac ymarfer er mwyn gallu datblygu dulliau trugarog, empathig sy'n cymhell oedolion yn y teulu i gymryd rhan yn onest.

Mae safbwynt rhieni mewn cysylltiad â gwaith cymdeithasol statudol a'r llys teulu yn gwneud ymgysylltu seiliedig ar berthynas yn dipyn o her:

- > Efallai y bydd gan y rhieni hanes teuluol o ymwneud â gwasanaethau (dros fwy nag un genhedlaeth weithiau). Gallai hyn gynnwys profiad o ymarfer ansensitif neu anghyson.
- > Efallai y bydd plant eraill wedi cael eu cymryd oddi arnynt ac y byddant wedi teimlo'r galar a'r golled sy'n dod yn sgil hynny.
- > Efallai y byddant hwy eu hunain wedi cael profiad personol negyddol o fod mewn gofal pan yn blant, sy'n achosi

ofn yn ymwneud â llesiant eu plentyn eu hunain yn y system ofal.

- > Mae'r materion sy'n dod â'r teulu i achos gofal yn debygol o fod yn gymhleth ac wedi gwreiddio'n ddwfn, a bydd angen newid mawr, sy'n anodd i unrhyw un ei sicrhau.

Gallai unrhyw rai o'r profiadau hyn, ynghyd â realiti presennol achos llys, wneud i riant fod yn ofnus a/neu yn elyniaethus tuag at yr hyn y mae'n ei weld fel 'bygythiad' gwaith cymdeithasol yn ymyrryd yn ei fywyd teuluol. Mae erthygl yn 2018 gan 'Annie', rhiant â phrofiad yn y llys teulu, yn rhoi ymdeimlad angerddol o'r profiad ac yn diweddu â chyfres o gwestiynau y mae angen i'r holl wasanaethau gwaith cymdeithasol eu hystyried o ddiifri:

Sut allwn ni weithio'n greadigol gyda rhieni i'w haddysgu ynglŷn â phroses y llys? I leihau eu hofnau, eu diffyg ymddiriedaeth, i weithio mewn partneriaeth go iawn, i gael rhywfaint mwy o degwch, i roi gwell siawns i deuluoedd aros gyda'i gilydd, i gefnogi a deall, yn hytrach na cheryddu, cosbi a gelyniaethu, i weithredu fel bodau dynol â charedigrwydd?

Sut allwn ni helpu teuluoedd drwy'r adegau hynny pan maen nhw'n fwyaf agored i niwed heb i'n dyngarwch ni ein hunain edwino er mwyn amddiffyn ein hunain? ('Annie', Community Care, 22 Mawrth 2018)³

³ www.communitycare.co.uk/2018/03/22/i-felt-like-an-alien-an-outsider-a-parents-experience-of-care-proceedings/

Cynadleddau Grŵp Teulu

Mae Cynadleddau Grŵp Teulu yn gyfarfodydd gwneud penderfyniadau gwirfoddol er mwyn galluogi teulu a'i rwydwaith i ddefnyddio'u cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i wneud cynllun diogel ar gyfer eu plant. Mae cynhadledd grŵp teulu hefyd yn gyfle i hysbysu'r teulu am unrhyw adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi. Mewn cynhadledd amddiffyn plant mae mwy o weithwyr proffesiynol nag o aelodau o'r teulu fel arfer, ond mewn cynhadledd grŵp teulu bydd gweithwyr proffesiynol yn y lleiafrif a byddant yn cefnogi yn hytrach nag arwain y broses.

Canfu ymchwil i effaith diwygiadau cyfiawnder teuluol ar ymarfer rheng flaen mewn chwe awdurdod lleol yn Lloegr ddefnydd cynyddol o gynadleddau grwpiau teulu yn y broses cyn-achos i gefnogi'r gwaith o ganfod cefnogaeth i rieni er mwyn rhoi sylw i broblemau a nodwyd yn gynnar (Bowyer a Wilkinson, 2015). Mae cynadleddau grŵp teulu hefyd yn ffordd o nodi aelodau o'r teulu fel gofalgwyr amgen os yw problemau'n gwaethygu a phlant yn methu ag aros yn y cartref. Yn ôl un swyddog adolygu annibynnol yn yr astudiaeth, 'cynhadledd grŵp teulu yw'r pwynt pwysicaf wrth gynllunio ar gyfer plentyn o ran sefydlogrwydd' (Bowyer a Wilkinson, 2015: 8).

Mae dadleuon ynglŷn â thystiolaeth o effeithiolrwydd cynadleddau grŵp

teulu yn esiampl dda o'r modd y gellir herio negeseuon o ymchwil. Canfu dadansoddiad ar raddfa fawr a gyhoeddwyd yn 2016 nad oedd cynadleddau grŵp teulu at ei gilydd yn arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n cael eu cam-drin na lleoliadau allan o'r cartref (Dijkstra et al, 2016). Mae astudiaethau unigol, fel y gwerthusiad o gynadleddau grŵp teulu yn Leeds, wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sydd mewn gofal (Mason et al, 2017). Mae llawer o eiriolwyr teulu, ymarferwyr ac academyddion yn cytuno bod cynnwys teuluoedd yn y broses o wneud penderfyniadau yn ganolog i ymarfer da ac, o ganlyniad, dylai cynadleddau grŵp teulu gael eu cynnwys mewn cymorth cynnar ac ymarfer cyn-achos fel rhan o system gwasanaethau plant a theuluoedd sy'n seiliedig ar werthoedd.

CLODDIO'N DDYFNACH

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am Gynadleddau Grŵp Teulu ar wefan y Grŵp Hawliau Teuluoedd:

www.frg.org.uk/involving-families/family-group-conferences

Mae cysylltiadau â gwasanaethau Cynadleddau Grwpiau Teulu yng Nghymru i'w gweld yma:

www.frg.org.uk/involving-families/family-group-conferences/fgc-listings/fgc-wales

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

Asesiadau hyfywedd

Pan fydd plentyn yn methu â byw'n ddiogel gyda'i rieni, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio rhyw fath o asesiad hyfywedd (neu asesiad rhagarweiniol) i benderfynu pa deulu a ffrindiau sy'n opsiwn realistig *posibl* i ofalu am y plentyn hwnnw. Mewn achos gofal, weithiau mae'n ofynnol i weithwyr cymdeithasol wneud asesiadau hyfywedd â nifer o aelodau o'r teulu heb fawr o rybudd ac yn aml iawn o fewn cyfnod byr iawn o amser.

Yn ôl adroddiad Masson et al (2017) ar ei astudiaeth o'r modd y mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn gweithio, a gyhoeddwyd yn 2014-15, o'u sampl o 203 o achosion (yn ymwneud â 326 o blant):

- > Roedd mwy nag un o bob tri yn cynnwys asesiadau hyfywedd cyn achos, ac roedd gan 11 y cant o'r achosion ddau neu ragor o asesiadau o'r fath.
- > Gorchymynnwyd asesiadau hyfywedd cyn y Gwrandawriad Datrys Materion mewn bron i 60 y cant o'r achosion – cyfanswm o 152 o asesiadau, a hyd at saith asesiad mewn achos unigol.
- > Gorchymynnwyd 15 asesiad hyfywedd a 21 asesiad llawn yn y Gwrandawriad Datrys Materion neu ar ôl y gwrandawriad hwnnw, gan olygu nad oedd llawer o amser o fewn yr amserlen safonol i gwblhau asesiadau neu brofi lleoliadau.

CLODDIO'N DDYFNACH

Canllawiau ymarfer da ar gyfer asesiadau hyfywedd

Yn ystod 2016-17 bu'r Grwp Hawliau Teulu'n arwain gwaith i ddatblygu canllawiau ymarfer da a fframwaith ar gyfer gwneud asesiadau rhagarweiniol o deulu a ffrindiau (Grŵp Hawliau Teulu, 2017). Er mai'r barnwr fydd yn penderfynu yn y pen draw pa opsiwn sefydlogrwydd yw'r un priodol ar gyfer y plentyn, mae'r canllawiau'n cynorthwyo ymarferwyr i 'ddangos yn hyderus bod opsiynau a allai fod yn hyfyw wedi cael eu harchwilio yn llawn ac yn deg'. Gallwch lawrlwytho'r canllawiau ar: www.frg.org.uk/involving-families/family-and-friends-carers/assessment-tool

CLODDIO'N DDYFNACH

Gorchymnion llys a phrosesau cyn-achos

Datblygwyd gwefan mynediad agored <http://coppguidance.rip.org.uk> gan Research in Practice ar gyfer yr Adran Addysg i helpu

gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llys teulu i deall a gweithredu newidiadau mewn ymarfer sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â Gorchmynion Llys statudol Lloegr a Chanllawiau Cyn-Achos 2014 a gofynion yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. (Nid oes gan ganllawiau'r Adran Addysg statws canllawiau statudol yng Nghymru; er hynny, mae llawer o negeseuon ac adnoddau defnyddiol y gellir eu trosglwyddo i ymarferwyr yng Nghymru.) Adolygwyd yr adnoddau yn 2017 i gynnwys adnoddau ar lety a gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig adran 20.

Risg a gallu i newid

Gallu i newid

Mae risg a gallu i newid yn greiddiol i waith cyn-achos a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y llys teulu.

- > **Asesu gallu rhianta:** Mae hyn yn ystyried gallu presennol y rhieni i ddiwallu anghenion datblygiadol eu plant, fel arfer drwy asesiad trawstoriadol sy'n casglu tystiolaeth am ddigwyddiadau blaenorol (hanes) a gweithrediad presennol.

- > **Gallu i newid:** Y cwestiwn hollbwysig yw a all rhiant newid digon, o fewn yr amserlen sy'n ofynnol, i ddiwallu anghenion y plentyn.

Mae'r adran hon yn crynhoi cynnwys Frontline Briefing gan Research in Practice sy'n ymwneud â deall ac asesu gallu rhieni i newid (Bowyer et al, 2013). Mae'r briff hwn yn cyflwyno, mewn fformat sy'n edrych ar bethau o safbwynt yr ymarferydd, y dull gweithredu cryf a ddatblygwyd gan seicolegwyr o Awstralia, sef Paul Harnett a Sharon Dawe (Harnett a Dawe, 2008; Harnett, 2007).

Mae asesu gallu i newid yn gofyn a yw rhieni – dros gyfnod penodol ac os rhoddir cefnogaeth briodol iddynt – yn barod, yn awyddus ac yn abl i wneud y newidiadau angenrheidiol er mwyn sicrhau lles a diogelwch eu plentyn.

Prif nod asesiad o allu i newid yw lleihau ansicrwydd. Pan fydd asesiad o allu rhianta – sy'n cael ei gynnal ar un adeg benodol – yn nodi gwendidau a chryfderau yn y teulu, mae'n anodd rhagweld beth fydd y canlyniadau yn y dyfodol. Mae asesiad o allu i newid yn rhoi cyfle i rieni ddangos a allant roi sylw i bryderon a nodwyd mewn asesiad o'u gallu rhianta presennol.

Er ein bod yn gwybod llawer am y ffactorau sy'n effeithio ar allu rhianta, mae asesu gallu rhieni a'u cymhelliad i newid patrymau sydd wedi hen sefydlu

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

eu hunain (sy'n cael effaith negyddol ar ddiogelwch a lles eu plentyn) yn dasg anodd, ond yn un bwysig.

Mae gallu i newid yn golygu bod angen i rieni:

- > Sylweddoli bod angen newid a bod yn barod i fod yn rhan o'r broses newid.
- > Meddu ar y gallu i wneud newidiadau (er enghraifft, i ddysgu sgiliau rhianta newydd neu gael cymorth cymdeithasol).
- > Rhoi ymdrech i mewn i'r broses newid.
- > Cynnal yr ymdrech gychwynnol dros gyfnod.

Mae angen i ymarferwyr sy'n asesu gallu i newid

- > Sicrhau eu bod yn monitro newid drwy gael nodau clir ac amlwg sy'n eu galluogi i benderfynu a oes newid wedi digwydd.
- > Deall y gallai rhieni fod yn amharod i gydnabod a mynd i'r afael â rhai agweddau ar eu sefyllfa.
- > Sylweddoli y gallai rhieni sydd â mwy nag un broblem deimlo bod yr her o wneud newidiadau'n ormod.
- > Cydnabod y gallai rhai rhieni ddangos parodrwydd i fod yn rhan o'r broses ar y dechrau, ond eu bod yn methu â gwneud newidiadau sy'n dangos gallu i wella eu sgiliau rhianta.
- > Cofio nad yw parodrwydd i weithio gyda gweithiwr proffesiynol penodol neu gymryd rhan mewn rhaglen

benodol o reidrwydd yn cyfateb i allu i newid.

(Buckley et al, 2006; Barlow a Scott, 2010)

Gellir ategu'r broses o asesu gallu i newid drwy weithio mewn partneriaeth â rhieni i ddod i ddealltwriaeth ynglŷn â'u:

- > Barn ynglŷn â'r problemau sydd ganddynt
- > Nodau a gwerthoedd
- > Gobeithion a chredoau ynglŷn â'r posibilrwydd y gellir gwella'r sefyllfa
- > Barn am ddewisiadau eraill sydd ar gael.

(Littell a Girvin, 2006, yn cael ei ddyfynnu yn Barlow a Scott, 2010)

Mae fframwaith Harnett a Dawe ar gyfer asesu gallu i newid yn cynnwys y canlynol:

- > Asesu beth sy'n digwydd ar hyn o bryd
- > Nodi targedau ar gyfer newid yn seiliedig ar asesiad o gryfderau a diffygion
- > Gweithredu ymyriad byr y profwyd y gall fod yn effeithlon i'r grŵp o gleientiaid ac sydd â thargedau penodol
- > Mesur newidiadau mewn sgiliau rhianta.

Mae Harnett a Dawe wedi bod yn gweithio gyda Jane Barlow, gan ddefnyddio eu dull gweithredu mewn llwybr asesu a gofal yn y gymuned yn y cyfnod cyn geni yn rhaglen Rhieni

dan Bwysau yr NSPCC (Harnett et al, 2018). Mae'r prosiect yn dangos canlyniadau addawol i ferched sydd ar y llwybr o gymharu â'r rhai mewn grŵp cymharol sy'n derbyn gofal arferol. Roedd mesuryddion safonedig o drallod seicolegol, cymorth cymdeithasol a defnydd o alcohol yn mesur newid ar gyfer y merched ar y llwybr asesu a gofal: roedd 42 y cant o'r babanod roedd eu mamau wedi derbyn y llwybr yn dangos gwelliant yn eu statws amddiffyn plant (o gymharu ag 14 y cant o'r babanod gofal arferol); ac roedd statws diogelu wedi dirywio neu wedi aros yr un fath mewn 52 y cant o'r achosion arferol (o gymharu â 26 y cant o'r rhai a oedd yn derbyn y llwybr).

CLODDIO'N DDYFNACH

Trosolwg o ymchwil

Gallwch lawrlwytho trosolwg o ymchwil yn y maes hwn – *Assessing parental capacity to change when children are on the edge of care: An overview of current research evidence* (Ward et al, 2014) – am ddim oddi ar wefan yr Adran Addysg: www.gov.uk/government/publications/children-on-the-edge-of-care-parents-ability-to-change

Llawlyfr asesu gallu i newid

Adnodd asesu mynediad agored yw C-Change (wedi'i ddatblygu ym Mhrifysgol Bryste) ac mae'n canolbwyntio ar allu rhieni i newid. Ewch i: www.bristol.ac.uk/sps/research/projects/current/assessing-parental-capacity-to-change/materials-and-tools/assessment-manual/

Adnoddau dysgu seiliedig ar dimau

Bu Research in Practice yn gweithio gyda grwp o ymarferwyr i ddatblygu adnoddau dysgu seiliedig ar dimau. Gallwch eu gweld ar: www.rip.org.uk/resources/publications/frontline-resources/teambased-learning--assessing-parental-capacity-to-change-training-course/

OFFERYN 14

Defnyddiwch yr offeryn hwn i'ch helpu i feddwl sut rydych yn asesu gallu rhieni i newid.

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu



FFOCWS AR YMARFER

Aseidiadau PAMS (Meddalwedd Llawlyfr Aseu Rhieni)⁴

Mae PAMS yn cael ei ddefnyddio i wneud archwiliad systematig o allu gofalwyr i ddiwallu anghenion eu plant. Mae'n aseiad fesul cam ag offeryn sgrinio cychwynnol ac aseiad manwl arall i'w ddefnyddio yn ôl y galw. Gellir defnyddio PAMS â gofalwr unigol neu â chwplwr, ac mae'n cael ei ddefnyddio'n aml os yw gofalwr yn agored i niwed neu os oes ganddo anawsterau gwybyddol.

Mae'r aseiad yn canolbwyntio ar wybodaeth a thasgau gweithredol ac mae'n seiliedig ar rianta ymarferol. Mae'n edrych ar nifer o wahanol feysydd:

- > Gofal a datblygiad plant, gan gynnwys rheoli ymddygiad
- > Diogelwch plant
- > Sgiliau byw'n annibynnol y rhiant
- > Perthnasoedd a rhwydweithiau cefnogi
- > Yr amgylchedd a'r gymuned.

Defnyddir cartwnau, lluniau ac arsylwadau i ganfod a oes gan ofalwr wybodaeth a/neu sgiliau yn y meysydd hyn. Mae PAMS yn tynnu sylw at gryfderau rhianta yn ogystal ag anawsterau ac yn ystyried blaenoriaethau ar gyfer gwaith parhaus ar ffurf addysgu neu sgiliau ymarferol. Gellir defnyddio PAMS unrhyw bryd i asesu anghenion cymorth teulu.

Aseu risg

- > Nid oes meini prawf neu ddiffiniadau cyfreithiol pendant y gellir dibynnu arnynt wrth asesu risg. Mae'r pwyslais ar y plentyn a'r teulu unigol, nid ar blant yn gyffredinol.
- > Mae ffactorau risg yn dangos tebygolrwydd. Maent yn dangos, ar sail tystiolaeth sy'n bodoli, beth *allai*

ddigwydd, ond nid ydynt yn rhagweld beth *fydd* yn digwydd.

- > Gall ffactorau risg fod yn sefydlog (er enghraifft collfarn flaenorol oedolyn am gam-drin plentyn) neu'n dddynamig ac yn agored i newid (er enghraifft, ymddygiad fel camddefnyddio sylweddau neu ffactor fel pwy sy'n byw ar aelwyd). Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw deall aseu risg fel proses barhaus.

⁴ http://www.pillcreekpublishing.com/pams_more.html

- > Mae risgiau'n rhyngweithio, ac yn cyfnerthu ei gilydd, felly bydd y cyfuniad penodol o ffactorau ym mhob achos yn bwysig. Gall risgiau i blentyn gynyddu'n gyflym a hynny'n hollol annisgwyl weithiau.
- > Gall effaith niwed ar blant unigol mewn un teulu amrywio gan ddibynnu ar nodweddion unigol a ffactorau ataliol, neu'r graddau y mae plant wedi dod i gysylltiad â niwed. Mae dadansoddi ffactorau ataliol a ffactorau gwynnwch yn elfen hanfodol o'r broses o asesu risg.
- > Elfen allweddol o asesiad risg cyfannol yw'r gallu i ddadansoddi ffactorau sy'n dylanwadu ar sefyllfaoedd – amgylchiadau'r plentyn a'r teulu unigol – ynghyd â ffactorau sy'n seiliedig ar ymchwil. Mewn geiriau eraill, edrych ar y dystiolaeth (a gasglwyd yn uniongyrchol drwy arsylwadau gwaith cymdeithasol, trafodaethau a ffynonellau eraill) sy'n ymwneud â'r plentyn a'r teulu sy'n ganolog i'r achos a dadansoddi hyn yng ngoleuni tystiolaeth empirig (wedi'i chasglu o boblogaethau).
- > Nid yw asesu risg yn ddigon ar ei ben ei hun – rhaid iddo fod yn gysylltiedig â rheoli risg, gwneud penderfyniadau a gwneud cynlluniau ar gyfer gwaith gyda'r teulu.

Barn broffesiynol ac offer safonedig

Yn eu hadolygiad systematig o fodolau dadansoddi niwed sylweddol mae Barlow et al (2012) yn nodi'r canlynol:

- > Mae cywirdeb llawer o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y maes amddiffyn plant yn wael ac nid yw barn glinigol yn unig yn ddull dibynadwy o asesu risg.
- > Mae gan offer asesu risg safonedig ac actiwaraidd (sy'n seiliedig ar ddata ymchwil ac sy'n rhoi sgorau risg rhifyddol) gyfyngiadau, ond 'mae ganddynt y potensial i wella dosbarthiad risg o niwed drwy roi arweiniad clir i ymarferwyr ynglyn â sut i roi ffocws i'r broses asesu, a dadansoddi'r data a gasglwyd' (Barlow et al, 2012: 22).

Mae barn broffesiynol strwythuredig yn cyfuno'r defnydd o offer seiliedig ar ymchwil ar gyfer dadansoddi â barn broffesiynol i lunio asesiadau sy'n seiliedig ar ymchwil ac sy'n adlewyrchu goblygiadau unigryw'r risgiau a'r cryfderau yn y teulu a'r amgylchedd ehangach i bob plentyn. Nid yw offer safonedig yn cymryd lle dull beirniadol o feddwl ac ymarfer myfyriol:

Gall protocolau asesu strwythuredig sy'n datblygu o ymchwil ar seiliau empirig a democratig ddarparu offer ymarfer defnyddiol iawn, ond er mwyn eu gweithredu'n effeithiol mae angen sgiliau meddwl yn feirniadol rhagorol, ynghyd ag ymwybyddiaeth fyfyrion o effaith prosesau anffurfiol. (Broadhurst et al, 2010)

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

Mae asesu effeithiol yn dibynnu ar y perthnasoedd sy'n cael eu datblygu gyda phlentyn a theulu, ansawdd y wybodaeth a gesglir a gallu'r ymarferydd i ofyn cwestiynau am ei ragdybiaethau a'i dueddiadau posibl ei hun. Os ydynt yn cael eu defnyddio yn y cyd-destun hwn, gall mesurau safonedig wella ansawdd a chysondeb asesu risg a dod â hygredded a thryloywder i asesiad mewn llys. Maen nhw'n gwneud ymchwilio agweddau allweddol ar amgylchiadau teuluoedd yn fater penodol a gallant ddangos meysydd lle mae angen asesiad gan arbenigwr. Os ydynt yn cael eu defnyddio mewn ffordd dryloyw a pherthynol, gall teuluoedd werthfawrogi gwerth offer o'r fath wrth egluro'r sail resymegol y tu ôl i benderfyniadau gwaith cymdeithasol.

CLODDIO'N DDYFNACH

Mesurau safonedig

- > Mae detholiad o fesurau safonedig y gellir eu defnyddio i helpu i lunio barn broffesiynol wrth asesu gallu rhieni i newid, gan gynnwys arweiniad ar sgorio a dehongli, i'w weld ar wefan Research in Practice. Ewch i: www.rip.org.uk/resources/publications/practice-tools-and-guides/scoring-standardised-

[measures--all-measures-and-guidance-compilation-2015/](#)

- > Mae'r offer asesu safonedig a oedd yn gysylltiedig â'r Fframwaith Asesu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Swyddfa Gartref, 2001) i'w gweld yma: <https://llyw.cymru/docs/caecd/publications/110323familycy.pdf>

OFFERYN 12

Offeryn i reolwyr yw hwn – gellir ei ddefnyddio i archwilio sut mae gweithwyr cymdeithasol yn asesu risg ac i gefnogi hyfforddiant ar ymarfer seiliedig ar dystiolaeth mewn gwaith llys.

OFFERYN 17

Bydd yr offeryn hwn yn eich helpu i herio'r sail dystiolaeth sydd wrth wraidd rhai materion gwaith cymdeithasol cyffredin a meddwl yn feirniadol am asesu risg. Gellir defnyddio'r offeryn fel offeryn hunanarchwilio neu mewn goruchwyliaeth.

Asesu risg o gam-drin pellach

Mae David Jones, uwch academydd, a Polly Baynes, gweithwraig gymdeithasol annibynnol â phrofiad helaeth o weithio mewn llysoedd, wedi datblygu offeryn

i asesu risg o ragor o gam-drin plant (Baynes a Jones, 2013).

Mae'r offeryn yn seiliedig ar ganfyddiadau adolygiad systematig gan David Jones a'i gydweithwyr (Hindley et al, 2006) a ganfu, o edrych ar y cyfnod o bum mlynedd ar ôl i blentyn gael ei gam-drin, bod 20 y cant o'r plant unigol wedi cael eu cam-drin eto a bod siawns o 30 y cant y byddai unrhyw blentyn yn y teulu yn cael ei gam-drin. Roedd y risg uchaf yn ystod y chwe mis ar ôl canfod y gamdriniaeth. Roedd y risg yn lleihau wedyn, ond yn cynyddu ar ôl pob digwyddiad cam-drin a'r amser rhwng yr achosion yn byrhau (Jones et al, 2006).

Mae'r ffactorau risg a nodwyd i'w gweld yn y tabl dilynol (y ffactorau mewn print italig yw'r rhai sy'n cael eu cysylltu fwyaf â'r tebygolrwydd o niwed yn y dyfodol). Yn eu dadansoddiad, mae'r ffactorau risg yn cael eu cysylltu fwyaf â niwed yn y dyfodol mewn achosion sy'n cynnwys cam-driniaeth flaenorol, esgeulustod, gwrthdaro rhwng rhieni, a lle mae gan un rhiant neu'r ddau ohonynt broblemau iechyd meddwl sylweddol.

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

Ffactorau sy'n gysylltiedig â niwed yn y dyfodol (Jones et al, 2006)

Ffactorau	Niwed sylweddol yn y dyfodol yn fwy tebygol	Niwed sylweddol yn y dyfodol yn llai tebygol
Camdriniaeth	<ul style="list-style-type: none"> > cam-drin corfforol difrifol, gan gynnwys llosgi/sgaldio > <i>esgeuluso</i> > diffyg twf difrifol > cam-drin cymysg > camdriniaeth flaenrol > cam-drin rhywiol â threiddio neu gamdriniaeth sy'n para'n rhy hir > salwch wedi'i ffugio neu wedi'i achosi gan eraill > cam-drin sadistig. 	<ul style="list-style-type: none"> > mathau llai difrifol o gamdriniaeth difrifol, ond os bydd yr unigolyn yn cydymffurfio, a ddim yn gwadu, mae llwyddiant yn bosibl o hyd.
Plentyn	<ul style="list-style-type: none"> > oediad yn natblygiad plentyn, gydag anghenion arbennig > problemau iechyd meddwl ifanc iawn – yn galw am newid cyflym gan y rhieni. 	<ul style="list-style-type: none"> > plentyn iach > priodoliadau (mewn cam-drin rhywiol) > cychwyn pan mae'r plentyn yn hyn un berthynas gywirol dda.
Rhiant	<ul style="list-style-type: none"> > <i>anhwylder personoliaeth</i>: gwrthgymdeithasol, sadistiaeth, ymosodol > ddim yn cydymffurfio > gwadu problemau 	<ul style="list-style-type: none"> > partner sydd ddim yn cam-drin > parodrwydd i ymwneud â gwasanaethau > cydnabod problem > derbyn cyfrifoldeb

Sylwer: Y ffactorau risg sydd mewn print italig yw'r rhai sydd â'r cysylltiad mwyaf â'r tebygolrwydd o niwed yn y dyfodol

Ffactorau sy'n gysylltiedig â niwed yn y dyfodol (Jones et al, 2006)

Ffactorau	Niwed sylweddol yn y dyfodol yn fwy tebygol	Niwed sylweddol yn y dyfodol yn llai tebygol
	<ul style="list-style-type: none"> > anawsterau dysgu ynghyd â salwch meddwl > camddefnyddio sylweddau > <i>seicosis paranoid</i> camdriniaeth yn ystod plentyndod – ddim yn cael ei gydnabod fel problem. 	<ul style="list-style-type: none"> > nhwylder meddyliol, yn ymateb i driniaeth addasu i gamdriniaeth yn ystod plentyndod.
Rhianta a	<ul style="list-style-type: none"> > ymlyniad di-drefn > diffyg empathi tuag at y plentyn > cymhwysedd rhianta gwael anghenion ei hun o flaen anghenion y plentyn. 	<ul style="list-style-type: none"> > ymlyniad normal > empathi tuag at y plentyn cymhwysedd mewn rhai meysydd.
Teulu	<ul style="list-style-type: none"> > <i>trais a gwrthdaro rhwng rhieni</i> > straen o fewn y teulu problemau pwer: dim llawer o drafod, ymreolaeth ac effeithio ar fynegiant. 	<ul style="list-style-type: none"> > dim trais domestig > partner sydd ddim yn cam-drin > gallu i newid teulu estynedig cefnogol.
Proffesiynol	<ul style="list-style-type: none"> > prinder adnoddau anfedruswydd. 	<ul style="list-style-type: none"> > perthynas therapiwtig â'r plentyn > gwasanaethau allgymorth i'r teulu partneriaeth â rhieni.
Lleoliad cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> > arwahanrwydd cymdeithasol > diffyg cefnogaeth gymdeithasol cymdogaeth dreisgar, anghefnogol. 	<ul style="list-style-type: none"> > cefnogaeth gymdeithasol > cyfleusterau gofal plant mwy lleol rhwydweithiau gwirfoddolwyr.

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

Mae'n anodd gwneud rhestrau gwirio systematig o ffactorau mewn offer asesu ac mae Jones a'i gydweithwyr yn rhybuddio na ddylid eu defnyddio i gyfrifo sgôr risg rifyddol. Yn hytrach, maent yn pwysleisio bod ffactorau yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffyrdd cymhleth, ac mai asesiad ansoddol o ffactorau unigol, a sut y maent yn amlygu eu hunain ym mywydau plant unigol sy'n bwysig:

Mae asesu risg ... yn rhy amwys ac anfanwl i'w gymhwyso yn y maes hwn. Er hyn, nid yw hynny'n golygu na ellir rheoli risg o niwed i'r plentyn yn y dyfodol mewn modd synhwyrol, rhesymegol ac agored. (Jones et al, 2006)

Ffactorau amddiffynnol a ffactorau gwytnwch

- > Ystyried ffactorau ataliol a ffactorau gwytnwch ochr yn ochr â risg
- > Ystyried yn ofalus sut y gallai gwahanol ffactorau rhyngweithio
- > Profi hyn o gymharu â'r dystiolaeth sydd ar gael neu drwy weithio gyda'r teulu
- > Gweithio gyda'r plentyn a'r teulu i ddatblygu ffactorau ataliol a ffactorau gwytnwch.

Mae ystyried ffactorau cryfder a gwytnwch yn agwedd allweddol ar asesu risg. Nid yw risgiau neu ffactorau sy'n achosi straen yn cael yr un effaith ym mhob teulu, a'r rhyngweithio rhwng gwahanol ffactorau sy'n dylanwadu ar

y risg. Er hyn, tra mae rhai awduron yn dadlau nad oes digon o sylw'n caei ei roi i ffactorau gwytnwch (er enghraifft Gilligan, 2010), mae eraill yn amlygu tueddiad weithiau i roi gormod o bwyslais ar wytnwch (Turney et al, 2011). Canfu dadansoddiad 2009 o adolygiadau achosion difrifol fod brwdfrydedd dros ddull seiliedig ar gryfderau weithiau'n rhwystr wrth geisio pwyso a mesur y risg o niwed (Brandon et al, 2009). Mae hon yn ystyriaeth bwysig wrth feddwl am risg yng nghyd-destun dulliau seiliedig ar gryfder a phwysigrwydd diwallu anghenion cymorth rhieni a gofalwyr er mwyn eu galluogi i ddiwallu anghenion eu plant, pwyslais sy'n cael cefnogaeth ddeddfwriaethol yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.

Ffactorau amddiffynnol a ffactorau gwynwch

(addaswyd o Dalzell a Sawyer, 2011 a Newman, 2011)

Plentyn	Teulu a rhianta	Ffactorau Cymunedol
<ul style="list-style-type: none">> perthynas ddiogel ag un oedolyn dibynadwy> oedolion sefydlog eraill> rhwydweithiau cymdeithasol cadarnhaol a rôl gymdeithasol> profiadau ysgol cadarnhaol> hunaneffeithlonrwydd: credu y gall eich ymdrechion chi wneud gwahaniaeth> sgiliau geiriol, gallu gwybyddol, sgiliau datrys problemau, dim problemau niwroffolegol> ymreolaeth, cymdeithasgarwch, hunan-dyb> sgiliau ymdopi, gallu i addasu a gweld straen/newid fel her> gweld ei hun fel pe bai mewn rhyw ffordd ar wahân i broblemau teuluol> cynlluniau a nodau ar gyfer y dyfodol profiadau cydadferol cynnar	<ul style="list-style-type: none">> perthynas ymddiriedus gyda phartner neu eraill> perthynas gydlynol a chyson rhwng rhieni> hunan-dyb> modelau rôl cadarnhaol> cyllid a chyfleoedd cyflogaeth digonol> dull adeiladol o ymdopi> camau i leihau adfyd i'r plentyn> agwedd agored, cyfathrebu da gwybodaeth am anghenion plentyn a ffactorau amddiffynnol.	<ul style="list-style-type: none">> ymdeimlad o berthyn, gwerthoedd a hunaniaeth ddiwylliannol> mynediad at wasanaethau iechyd, addysg a lles a gwasanaethau eraill.

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

Asesu opsiynau ar gyfer sefydlogrwydd

Mae'r llys yn ymwneud â sylwedd nid ffurf. (Ryder LJ, in Jones, 2014)

Amcan cynllunio ar gyfer sefydlogrwydd yw 'sicrhau bod gan blant deulu diogel, sefydlog a chariadus i'w cefnogi yn ystod eu plentyndod ac ar ôl hynny ac i roi ymdeimlad o ddiogelwch iddynt' (Yr Adran Addysg, 2015: 22).

Yn ei hadolygiad o dystiolaeth ar sefydlogrwydd i'r Ymchwiliad Gofal, pwysleisiodd Boddy (2013) bwysigrwydd 'atebion unigol i blant unigol'. Mae hyn yn golygu rhoi'r un gwerth i ffyrdd eraill o sicrhau sefydlogrwydd (nid llwybrau at sefydlogrwydd cyfreithiol yn unig) gan gynnwys cymorth i blant a theuluoedd ar 'gyrion gofal', ailuno a sefydlogrwydd mewn gofal a rennir neu ofal amser llawn. Y nod yw:

- > darparu gofal sefydlog o safon uchel
- > cefnogi ymdeimlad plant o hunaniaeth a pherthyn
- > cysylltu'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol drwy gydol plentyndod ac ymlaen i fywyd fel oedolyn (Boddy, 2013: 5)

Mae dod o hyd i'r lleoliad 'iawn' yn allweddol er mwyn sicrhau cynnydd, adferiad a sefydlogrwydd – a lleihau risgiau posibl, er enghraifft:

- > anawsterau emosïynol ac ymddygiadol
- > anawsterau yn yr ysgol

- > atgyfnerthu ymlyniadau bregus
- > mynd ar goll
- > ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol
- > anhawster yn y cyfnod pontio rhwng plentyndod a bod yn oedolyn. (Moran et al, 2016; Selwyn, 2010)

Canlyniadau ar ôl diwygio'r broses achos gofal

Fel y mae Masson et al (2017) ac eraill wedi nodi, mae patrwm gwahanol yn dod i'r amlwg mewn achosion llys sy'n cael eu gwneud ers cyflwyno'r amserlen 26 wythnos. Mae nifer y gorchmynion gofal a lleoli wedi gostwng, tra mae nifer y gorchmynion goruchwylio, gorchmynion trefniadau plant (a arferai gael eu galw'n orchmynion preswyllo) a gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig wedi cynyddu. Ond er bod achos byrrach o fudd i blant os yw'r niwed yn dod i ben yn gynt a sefydlogrwydd yn cael ei sicrhau'n gyflymach, gallai gynyddu'r risg bod gorchymyn anghywir yn cael ei wneud. Os hynny, bydd y cyfle i sicrhau sefydlogrwydd yn gynnwys wedi ei gollu.

Cynllunio ar gyfer sefydlogrwydd – dadansoddi ar gyfer penderfyniad teg

- > Rhaid i dystiolaeth awdurdod lleol gyflwyno dadansoddiad manwl a chyfannol o les i'r llys er mwyn sicrhau

bod ganddo'r wybodaeth y mae arno ei hangen i wneud penderfyniad teg.

- > Rhaid i awdurdodau lleol a gwarcheidwaid plant roi ystyriaeth fanwl i'r gwahanol opsiynau lleoli sy'n agored yn realistig i'r llys. (Jones, 2014)

Rhaid i ddadansoddiad fynd drwy'r opsiynau lleoli realistig a'u dadansoddi'n fanwl, gan bwysu a mesur y manteision a'r anfanteision, yn hytrach na dim ond dweud a ydynt yn briodol ai peidio.

... mae pob achos yn ymwneud yn benodol â ffeithiau ac nid yw rhestru'r lleoliadau parhaol amgen sydd ar gael i blentyn a nodi'n fyr pam y maent yn addas, neu'n anaddas, ym marn yr awdurdod lleol, yn mynd i fod yn ddigonol. (Jones, 2014)

Gellir gwella'r dull o gyflwyno adroddiadau gwaith cymdeithasol strwythuredig i'r llys drwy ddefnyddio templedi profforma, er enghraifft Templed Tystiolaeth Gwaith Cymdeithasol (SWET). Profforma arall a ddefnyddir yn aml gan awdurdodau lleol yn dilyn *Re B-S* yw'r dull 'mantolen'. Mae llawer o awdurdodau lleol yn strwythuro eu tystiolaeth derfynol o amgylch 'rhestr wirio' – â phennawd ar gyfer pob lleoliad y gellir ei ystyried yn realistig a dadansoddiad o briodoldeb y lleoliad.

CLODDIO'N DDYFNACH

Datblygwyd y SWET gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant a Cafcass England a chafodd ei gyflwyno

yn haf 2014 (diweddarwyd yn 2016) â'r bwriad o ddarparu deunydd clir a dadansoddol i'r llysoedd. Gallwch weld y SWET ar wefan mynediad agored Court Orders and Pre-proceedings gan Research in Practice ar: <https://coppguidance.rip.org.uk/social-work-evidence-template>

Pa bynnag dempled, profforma neu strwythur a ddefnyddir, mae angen i'r cynnwys dadansoddol fod yn fanwl a dangos tystiolaeth o ystyriaeth ofalus. Fel arall, bydd yn amhosibl i'r llys wneud penderfyniad wedi'i resymu'n ddigonol. Nid oes fformat 'mantolen' syml a all gymryd lle 'sylwedd y rhesymu' (*Re W* (Plentyn); *Re H* (Plant) [2013] EWCA Civ 1177⁵) (Jones, 2014).

Cynnwys plant wrth wneud penderfyniadau

Canfu adolygiad systematig o'r llenyddiaeth am farn plant a phobl ifanc am gael eu rhoi mewn gofal eu bod at ei gilydd eisiau cael eu cynnwys fwy mewn penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud mewn cysylltiad â hwy (Minnis a Walker, 2012). Teimlai'r rhan fwyaf mai'r penderfyniad i'w rhoi mewn gofal oedd y penderfyniad cywir; er hyn, roedd llawer heb gael fawr o ddewis o ran ble byddent yn byw. Teimlent nad oedd pobl yn gwrando arnynt bob amser, ac roeddent yn pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod eu hanghenion unigol a'u dewisiadau'n cael eu hystyried.

⁵ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed118831

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

Nodweddion plant mewn gwahanol leoliadau

- > Mae canfyddiadau ymchwil sy'n ymwneud â grwpiau penodol neu ganlyniadau penodol yn ddefnyddiol wrth wneud penderfyniadau, ond ni allant ragweld canlyniadau unigol. Mae plant yn unigolion sydd â nodweddion cymdeithasol, diwylliannol, teuluol a genetig penodol. Bydd tueddiad a gwytnwch yn wyneb profiadau niweidiol yn amrywio o'r naill blentyn i'r llall; hyd yn oed o fewn yr un teulu, gall y canlyniadau i un plentyn fod yn wahanol iawn i'r canlyniadau ar gyfer plentyn arall.
- > Mae tystiolaeth ymchwil yn esblygu dros gyfnod ac yn rhyngweithio â blaenoriaethau polisi. Nid yw'n darparu atebion pendant er mwyn gwneud penderfyniadau mewn achosion unigol. Er mwyn cymhwyso tystiolaeth ymchwil yn ymarferol mae angen barn broffesiynol ystyrlon a sgiliau dadansoddol soffistigedig.
- > Nid oes corff hafal o lenyddiaeth ar effeithiau niwed neu wahanol fathau o leoliadau. Mae hyn yn gwneud pethau'n anodd wrth geisio gwneud cymariaethau uniongyrchol.
- > Mae rhai darnau o ymchwil yn gymharol ddiweddar (er enghraifft y dystiolaeth ar niwrofioleg a gweithrediad yr ymennydd); mae'r sail

dystiolaeth yn dal i ddatblygu ac yn destun trafodaeth.

- > Nid yw astudiaethau ymchwil bob amser yn gwahaniaethu rhwng mathau penodol o gam-drin a/neu esgeuluso. Mae hyn yn dipyn o her wrth geisio deall y llwybrau penodol, yr effeithiau a'r camau amddiffynnol sydd eu hangen.

Er bod rhai astudiaethau wedi cymharu canlyniadau mewn gwahanol fathau o leoliadau, ychydig sydd wedi dadansoddi setiau data gweinyddol cenedlaethol i gymharu'r nodweddion a'r canlyniadau i blant mewn gwahanol fathau o leoliadau. Ceisiodd Selwyn a'i gydweithwyr (2014) wneud hyn drwy ddadansoddi data gweinyddol awdurdodau lleol (2000-2011) ar gyfer dros 38,000 o blant i gymharu gorchmynion mabwysiadu, gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig a gorchmynion preswyllo (gorchmynion trefniadau plant erbyn hyn). Cafodd yr ymchwil ei wneud cyn cychwyn y rhaglen diwygio cyfiawnder teuluol.

Canfuwyd mai plant a oedd yn cael eu mabwysiadu oedd y rhai ieuengaf pan oeddent yn cael eu derbyn i ofal (1.2 oed ar gyfartaledd), o gymharu â phlant â gorchmyn gwarcheidiaeth arbennig (3.4 oed) neu orchymyn preswyllo (4.5 oed). Mae oed wrth gael eu derbyn i ofal yn ffactor pwysig wrth ystyried canlyniadau, gan fod oed hŷn wrth gael ei dderbyn i ofal yn gysylltiedig ag ansefydlogrwydd lleoliad. Canfu Selwyn et al hefyd fod

38 y cant o'r plant a oedd â gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu orchymyn preswyllo heb brofi unrhyw symudiad ar ôl eu lleoliad cyntaf. Fodd bynnag, roedd 39 y cant o'r rhai a oedd â gorchymyn preswyllo wedi profi o leiaf un ymdrech aflwyddiannus i gael eu hailuno â'u rhieni.

Sefydlogrwydd a lles

O ran sefydlogrwydd a lles, mae tystiolaeth bod y canlyniadau i blant sydd wedi cael eu cam-drin ac sy'n parhau i dderbyn gofal yn well na'r canlyniadau ar gyfer y rhai sy'n dychwelyd i'w cartrefi, yn enwedig os nad oes sylw wedi'i roi i'r materion yn ymwneud â'r gamdriniaeth. Canfu astudiaeth Wade a'i gydweithwyr (2010) a oedd yn ymwneud â 3,872 o blant a oedd yn derbyn gofal (gan saith awdurdod lleol) fod canlyniadau yn well at ei gilydd ar gyfer plant a oedd wedi parhau i dderbyn gofal nag ar gyfer y rhai a oedd wedi dychwelyd i'w cartrefi. Mae'r astudiaethau sy'n cael eu hystyried yn *Safeguarding Children Across Services: Messages from research* (Davies a Ward, 2012) hefyd yn cynnig rhai canfyddiadau defnyddiol.

> Canfu astudiaeth ddilynol ymhen pum mlynedd gan Farmer a Lutman (2012) o 138 o blant wedi eu hesgeuluso a oedd wedi derbyn gofal ac a oedd wedi dychwelyd i'w cartrefi fod y rhai a oedd yn byw bywyd sefydlog yn rhywle ar wahân i'w cartrefi yn fwy

tebygol o fod â llesiant cyffredinol da na'r rhai a oedd yn byw bywyd sefydlog yn eu cartrefi.

> Daeth astudiaeth gan Ward a'i gydweithwyr (2012), a oedd yn edrych ar 43 o blant a oedd yn destun asesiad craidd cyn eu pen-blwydd cyntaf, i'r casgliad fod tua 40 y cant o'r rhai a oedd yn byw gyda rhieni yn dal i wynebu risg. Canfu'r astudiaeth hon hefyd fod pob un ond un o'r rhieni a oedd wedi newid digon i ofalu am eu plentyn wedi gwneud hynny cyn bod y babi yn chwe mis oed.

> Cymharodd Wade et al (2011) ganlyniadau ar gyfer 149 o blant wedi cael eu hesgeuluso a'u cam-drin a oedd wedi cael eu hailuno â'u teulu, â chanlyniadau ar gyfer plant eraill a oedd wedi aros mewn gofal. Gwelsant fod gan blant yn y grŵp gofal well llesiant at ei gilydd na'r rhai a oedd wedi mynd adref, hyd yn oed y rhai hynny a oedd wedi bod yn sefydlog ar ôl dychwelyd i'w cartrefi.

Er hyn, mae'n bwysig peidio â gadael i'r canfyddiadau hyn danseilio'r ffaith allweddol fod llawer o deuluoedd yn gallu gwneud y newidiadau sydd eu hangen i ofalu am eu plant; ac â'r gefnogaeth iawn y byddai rhagor o deuluoedd yn gallu gwneud hynny. Fodd bynnag, y cwestiwn hollbwysig ym mhob asesiad o hyd yw a fydd y teulu hwn yn gallu newid o fewn yr amserlen sy'n diwallu anghenion y plentyn.

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

Mae derbyn plentyn i ofal yn cael ei weld yn briodol fel dewis olaf, ond mae angen i ni fod yn glir pa bryd y mae angen y dewis olaf hwn – ac mae'r ymchwili yn awgrymu bod hyn mewn rhai achosion yn gynharach na'r adeg y digwyddodd. Yn bwysig iawn, nid yw 'dewis olaf' yn golygu 'dewis gwaethaf'.

Casgliad

- > Mae angen i asesiadau fod yn brydlon ac yn gymesur.
- > Mae angen i weithwyr proffesiynol weithio mewn partneriaeth â theluoedd i archwilio eu dealltwriaeth o'r anawsterau presennol a gwranddo ar eu hawgrymiadau ynglŷn â sut y gallai pethau newid.
- > Dylid egluro'r broses asesu wrth rieni a phlant – ac ymgorffori eu barn.
- > Mae angen i weithwyr cymdeithasol egluro'n glir wrth rieni beth sydd ei angen – beth mae'n rhaid iddo newid a pha mor fuan er mwyn osgoi ymyriad statudol.
- > Mae angen prosesau clir er mwyn mesur cynnydd ag unrhyw gynlluniau cytunedig sy'n seiliedig ar gytundebau ysgrifenedig gyda theluoedd.
- > Mae angen cysylltiad clir rhwng asesiadau a darparu gwasanaeth a gwneud penderfyniadau. Mae angen i weithwyr cymdeithasol ddangos sut maen nhw wedi dod i gasgliad penodol, a sicrhau bod casgliadau ac argymhellion yn llifo'n glir ac yn rhesymegol o'u dadansoddiad o'r hyn sy'n digwydd yn y teulu hwn a pham y mae hyn yn bwysig.
- > Mae asesiadau clir yn cynnwys adroddiad clir am hanes teulu, gan gynnwys profiad y rhieni eu hunain o gael eu rhianta, yn ogystal â disgrifiad o brofiadau unigol pob plentyn a sut mae pob un wedi ymateb.
- > Dylai pob dyn sy'n byw yn y cartref ac sy'n rhan o fywydau'r plant gael ei gynnwys yn yr asesiad.
- > Dylai asesu risg fod yn rhan o bob asesiad a dylai fod yn seiliedig ar wybodaeth am ymchwili sy'n ymwneud â'r ffactorau risg sefydlog sy'n gysylltiedig â risgiau o gam-drin plant a thrais yn y teulu. Mae barn broffesiynol strwythuredig yn cyfuno'r defnydd o offer actiwaraid safonedig ac ymchwili â barn broffesiynol. Mae hyn yn fwy dibynadwy na barn glinigol yn unig.
- > Mae asesu yn broses, nid cynnyrch, a dylai fod yn barhaus drwy gydol pob gwaith gyda theluoedd. Gall plant mewn angen ddod yn blant sydd angen eu hamddiffyn ar unrhyw adeg, gan fod risgiau'n gallu cynyddu yn gyflym heb unrhyw arwydd.

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dadansoddi ac asesu

A series of 25 horizontal dotted lines for writing.

Testun gwreiddiol Lewis J (2012)

Diweddarwyd ac addaswyd ar gyfer Cymru gan Doughty J (Ysgol y Gyfraith, Caerdydd) a James A (Cyngor Gofal Cymru) (2013)

Diweddarwyd yr argraffiad cyfredol gan Doughty J a Davies N (2018).

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

© Research in Practice a Gofal Cymdeithasol Cymru 2018

Golygu: Steve Flood a Susannah Bowyer
Dylunio:

Mae Research in Practice yn adran o Ymddiriedolaeth Dartington Hall sydd wedi'i chofrestru yn Lloegr fel cwmni cyfyngedig drwy warant ac elusen. Rhif Cwmni: 1485560
Rhif Elusen: 279756 Rhif TAW: 402196875
Swyddfa Gofrestredig: The Elmhirst Centre, Dartington Hall, Totnes TQ9 6EL